# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

United Dental, Practis Castell-neddAbertawe Bro Morgannwg University Health Board

Dyddiad yr arolygiad: 11 Ionawr 2018

Dyddiad cyhoeddi: 19 Ebrill 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-969-6



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 7

   Ansawdd profiad y claf ........ 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 12

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 18

4. Beth nesaf? ........ 20

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 21

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 22

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 23

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle y rhoddwyd rhybudd o United Dental, Practis Castell-nedd yn 109 London Road, Castell-nedd SA11 1HL, o fewn Abertawe Bro Morgannwg University Health Board ar 11 Ionawr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod United Dental, Practis Castell-nedd yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddgar.

Fodd bynnag, canfuom rywfaint o dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- At ei gilydd, roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar ac wedi ymrwymo i ddarparu gofal o ansawdd da
- Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn lân
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen adolygu a gwella prosesau ar gyfer cofnodi ac ymdrin â chwynion
- Rhaid adolygu asesiadau risg amgylcheddol i fynd i'r afael â'r problemau mynediad a storio a nodwyd
- Mae angen adolygu lefelau imiwneiddio ar gyfer dau aelod o staff
- Mae angen adolygu a gwella prosesau diogelu data
- Er bod y gwaith o gofnodi nodiadau cleifion yn dda iawn, roedd un agwedd y mae'n rhaid ei chadw yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae gan grŵp United Dental chwe phractis deintyddol yn ardal Gorllewin Cymru. Mae United Dental, Practis Castell-nedd yn darparu gwasanaethau i gleifion yng Nghastell-nedd a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r practis yn ffurfio rhan o wasanaethau deintyddol sy'n cael eu darparu o fewn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Abertawe Bro Morgannwg University Health Board.

Mae gan y practis dîm staff mawr sy'n cynnwys naw deintydd (un ohonynt yn darparu cymorth cartref), un therapydd, un hylenydd, 15 nyrs ddeintyddol, dau dderbynydd ac un rheolwr practis (sy’n rheoli’r practis hwn a dau bractis arall sy’n eiddo i United Dental).

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG.NHS and private

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Yn gyffredinol, canfuom fod United Dental, Practis Castell-nedd yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a'u bod wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i'w cleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol iawn.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael eu barn ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 183 o holiaduron wedi'u cwblhau; cafodd y mwyafrif o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion hirdymor yn y practis (y rhai a oedd wedi bod yn gleifion am fwy na dwy flynedd). Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn yr holiaduron yn gadarnhaol iawn. Yn yr holiaduron gofynnwyd i'r cleifion sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd rhai o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Practis ardderchog, deintyddion a staff"*
>
> *"Mae staff y ddeintyddfa hon yn barod iawn eu cymwynas.Does yr un peth yn ormod o drafferth, maent bob amser yn ceisio rhoi apwyntiad i chi mewn argyfwng.Y deintydd gorau o gwmpas"*
>
> "Mae fy nheulu a minnau wedi'n cofrestru yma ers blynyddoedd ac rydym bob amser yn hapus gyda'r driniaeth yr ydym wedi'i chael, yn benodol y gwasanaeth cyflym rydym wedi'i dderbyn mewn argyfwng"
>
> *"Rwy'n hapus iawn gyda'r gwasanaeth yr wyf yn ei gael gan y practis."*

### Cadw'n iach

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a wnaeth gwblhau'r holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Roedd gwybodaeth hybu iechyd deintyddol penodol ar gael i gleifion yn y mannau aros. Cafodd arfer da ei nodi yn yr man

aros i fyny'r grisiau lle roedd arddangosfa wedi'i hanelu at blant ar gael a oedd yn dangos lefelau siwgr mewn diodydd. Cynghorwyd rheolwyr y practis i ystyried defnyddio'r dull poster hwn ar gyfer gwybodaeth hylendid ceg bwysig arall.

## Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis. Roedd sylwadau a gafodd eu rhoi gan gleifion yn yr holiaduron yn cynnwys:

> *"Staff cyfeillgar iawn, bob amser yn barod i helpu ac yn groesawgar"*
>
> *"Gofal ardderchog ar bob lefel o'r dderbynfa i'r driniaeth ddeintyddol"*
>
> *"Cyfeillgar iawn, mae staff bob amser yn gwenu.10/10"*

Roedd lle ar gael i staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle roedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) yn cael eu cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd bron yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod cael eu cynnwys cymaint ag y dymunent mewn unrhyw benderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud am eu triniaeth, ac roedd y mwyafrif helaeth o'r cleifion yn teimlo eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Yn yr holiaduron dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a oedd wedi derbyn triniaeth yn y practis fod cost eu triniaeth bob amser yn cael ei gwneud yn glir iddynt. Dywedodd bron hanner y cleifion a oedd wedi derbyn triniaeth wrthym nad oeddent yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth. Fodd bynnag, gwelsom fod gwybodaeth am bris triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat ar gael ar hysbysfyrddau yn y mannau aros yn hysbysu cleifion am gostau triniaeth.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur wrthym eu bod bob amser yn gallu siarad â staff yn eu dewis iaith; roedd hyn yn cynnwys y cleifion hynny a oedd yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, a chleifion di-Gymraeg. Fodd bynnag, dywedodd pump o gleifion wrthym yn yr holiaduron

eu bod yn teimlo na allent byth siarad â staff yn eu dewis iaith. Fe'n hysbyswyd gan reolwr y practis fod y practis yn gweithio ar ddarparu mwy o wybodaeth yn ddwyieithog a’u bod wedi cael rhif cyswllt gwasanaeth cyfieithu gan un o'r chwaer bractisiau i gefnogi hyn.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol bob amser yn cael ei ddarparu mewn modd amserol ac mae'r derbynyddion yn ceisio hysbysu cleifion os rhagwelir oedi. Dywedodd un rhan o dair o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Fodd bynnag, gwelsom fod manylion rhifau cyswllt argyfwng yn cael eu harddangos yn amlwg yn ffenestr y practis ac ar wefan y practis.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd y mwyafrif o’r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn cael gwybod am sut i ofalu am eu dannedd/deintgig a'u hannog i wneud hynny ar ôl apwyntiadau a rhyngddynt.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Mae mynediad gwastad i flaen yr adeilad ac i bedair ystafell driniaeth ar y llawr daear, a oedd yn golygu bod y rhain yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd/defnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae cyfleusterau toiled ar y llawr daear sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd; roedd bin gwastraff glanweithiol newydd yn cael ei gaffael.

### Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd cyfran helaeth o gleifion a wnaeth gwblhau holiadur wrthym nad oeddent yn ymwybodol o'r ffaith bod y practis deintyddol yn gofyn am eu barn ar y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu, er enghraifft, trwy holiaduron cleifion. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth fod y practis yn ceisio barn cleifion ar y gwasanaeth trwy eu harolwg cleifion eu hunain. Argymhellir rheolwr y practis i adolygu rheoleidd-dra arolygon, y broses ar gyfer archwilio unrhyw themâu a chofnodi camau sydd wedi'u cymryd ar ôl derbyn ymatebion cleifion. Dylid darparu crynodeb byr o'r canfyddiadau i gleifion, i ddangos pa gamau sy'n cael eu cymryd yn dilyn yr adborth a gafodd ei dderbyn.

Dywedodd ychydig dros hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i godi pryder neu gŵyn am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol pe bai angen.

Roedd gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG, a oedd ar gael ar wal yr ystafell aros. Roedd hyn yn cydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer nodi pryderon am driniaeth y GIG (a elwir yn 'Gweithio i Wella').[1] Roedd gweithdrefn gwynion ar gyfer gofal deintyddol preifat hefyd ar gael fel sy'n ofynnol yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008.[2] Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth hon yn hawdd pe bai ei hangen arnynt. Cynghorwyd y gallai dolen i'r wybodaeth hon fod ar gael ar wefan y practis hefyd.

Derbyniwyd ychydig o gwynion yn ystod y 12 mis diwethaf. Rheolwr y practis yw'r unigolyn penodedig ar gyfer ymdrin â chwynion. Roedd angen rhoi sylw i'r gwaith o gadw'r ffeil cwynion yn drefnus a dylid cadw cofnod o gwynion/pryderon ar wahân. Dylid adolygu, datblygu a safoni'r fformatau ar gyfer casglu manylion yr atgyfeiriad cychwynnol, y camau a gymerwyd a chau cwynion / pryderon. Mae hyn fel bod modd ymateb i bob cwyn mewn modd cyson ac olrhain y gŵyn o ddechrau i ddiwedd y broses. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o ymateb i gwynion yn unol â phrosesau'r practis ar gyfer ymdrin â chwynion. Byddai'r broses ar gyfer archwilio themâu cyffredin hefyd yn elwa ar gael ei datblygu ymhellach. Dylai'r gwelliannau hyn gael eu defnyddio ar draws y chwaer bractisau. Cynghorir bod rheolwr y practis yn mynychu cwrs i ddiweddaru ei hyfforddiant ar ymdrin â chwynion.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis adolygu ei brosesau ar gyfer ymdrin â chwynion a safoni ei fformat cadw cofnodion, fel bod yr holl fanylion yn cael eu casglu, o adeg yr atgyfeiriad i'r camau sy'n cael eu cymryd a'r gŵyn yn cael ei chau. Dylid cynnal cofnod o bryderon ar wahân i wella'r gwaith o gadw'r cofnodion o gwynion yn daclus.

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932

[2] https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd roedd angen eu gwella.

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Fodd bynnag, rhaid i'r practis adolygu ei asesiad risg amgylcheddol, i fynd i'r afael â'r problemau mynediad a storio a nodwyd. Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Fodd bynnag, roedd angen rhagor o fanylion/diweddaru ar gofnodion brechiadau imiwneiddio ar gyfer un deintydd ac un therapydd.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw. Rhaid i'r practis adolygu ei brosesau diogelu data i sicrhau bod mynediad i gofnodion cleifion yn ddiogel.

Gwnaethom nodi bod angen rhywfaint o wella ar un agwedd ar gadw cofnodion y deintyddion i gydymffurfio'n llwyr â'r safonau clinigol ar gyfer cadw cofnodion.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy a gwiriad gwifrau trydanol bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad wedi cael eu cynnal i helpu sicrhau'r defnydd diogel o ddyfeisiau trydanol bach yn y practis.

Roedd toiled neillryw â mynediad i bobl anabl i'w ddefnyddio gan gleifion ar y llawr daear a thoiled neillryw ar y llawr cyntaf. Roedd arwyddion clir ar gyfer y cyfleusterau hyn ac roeddent i'w gweld yn lân.

Roedd asesiadau risg ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a thaflenni data diogelwch yn cael eu cadw ar gyfer sylweddau yn ogystal ag asesiadau risg. Roedd sylweddau sy'n dod o dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn cael eu storio'n ddiogel ar bob adeg. Roedd diffoddwyr tân ar gael ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf, gyda chontract cynnal offer tân ar waith. Roedd asesiad risg tân ar gael ac roedd arwyddion tân ar gael. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith.

Mae angen ystyried mynediad mwy diogel i ardaloedd staff yn unig ar gyfer yr ystafell ddadheintio a'r ardaloedd storio meddyginiaeth, er mwyn atal cleifion rhag cael mynediad. Hefyd, rhaid cadw padiau presgripsiwn yn ddiogel o dan glo yn ystod amser cinio. Mae angen adolygu'r trefniadau ar gyfer storio o dan y grisiau. Rhaid i'r practis adolygu ei asesiad risg amgylcheddol, i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis adolygu ei asesiadau risg amgylcheddol er mwyn ystyried a chymryd camau mewn perthynas â gwneud mynediad i badiau presgripsiwn, mynediad i'r ystafell ddadheintio a mynediad i storfeydd meddyginiaethau yn fwy diogel, a storio eitemau yn yr ardal o dan y grisiau.

## Atal a rheoli heintiau

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd bron pob claf a wnaeth gwblhau holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol. Mae hyn oherwydd inni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd sinciau golchi dwylo a threfniadau ar gyfer sinc ddeuol ar waith yn yr ystafell ddadheintio
- Cyfarpar diogelu personol megis menig a ffedogau untro a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael ei ddefnyddio

- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio i lanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg
- Roedd offerynnau'n cael eu storio a'u cludo'n briodol a'u deunydd pacio’n cael ei ddyddio i ddangos erbyn pryd roedd rhaid iddynt gael eu defnyddio.

Roedd polisi dadheintio ar waith a gwelsom dystiolaeth fod staff yn arwyddo a dyddio polisïau allweddol i nodi eu bod wedi’u hystyried. Mae'n ofynnol i staff clinigol gael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B i amddiffyn cleifion a'u hunain rhag heintiau. Gwnaeth y practis roi tystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o staff clinigol. Fodd bynnag, roedd angen rhagor o fanylion a/neu ddiweddaru ar y cofnodion ar gyfer un deintydd ac un therapydd.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[3] Canfuom nad oedd tystiolaeth fod yr holl staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant dadheintio o fewn cylchred eu datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw’n beryglus. Roedd cynwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Roedd angen rhagor o fanylion a/neu ddiweddaru ar y cofnodion imiwneiddio ar gyfer un deintydd ac un therapydd.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio’n ddiogel mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn cwympo/llewygu) yn y practis. Bydd mynediad cleifion i'r ardal storio hon yn cael ei ystyried trwy'r asesiad risg amgylcheddol.

[3] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau brys i sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio. Roedd polisi dadebru ar waith a oedd yn cynnwys lleoliad y cyfarpar a rolau a chyfrifoldebau. Roedd swyddogion cymorth cyntaf dynodedig a hyfforddedig ar gael yn y practis.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn llesiant a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed a allai fod mewn perygl. Mae polisïau priodol ar waith ac mae hyfforddiant diogelu yn cael ei ddarparu ar gyfer staff perthnasol. Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallant wneud hyn yn y practis.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom nodi bod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio a'u trefnu i helpu'r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da.

Gwelsom fod yr amgylcheddau wedi cael eu cynllunio a'u trefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Roedd ffeil ymbelydredd ar gael yn y practis a oedd yn cynnwys gwybodaeth allweddol mewn un man. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Canfuom fod staff a oedd yn cymryd rhan uniongyrchol yn y gwaith o gynnal radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.[4] Roedd nyrsys deintyddol wedi ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth radioleg neu wedi trefnu lle ar gyfer cwrs diweddaru.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

[4] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom fod y practis wedi ymgymryd ag archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau, cadw cofnodion ac archwiliadau radiograffig.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Disgrifiodd rheolwr y practis y prosesau adolygu ansawdd sy'n cael eu cynnal yn fewnol. Mae'r practis yn defnyddio offeryn gwerthuso’r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth [5]. Roedd tystiolaeth ar ffeiliau hyfforddiant deintyddion o bresenoldeb mewn amrediad o gyrsiau datblygu proffesiynol parhaus.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd angen ystyried y ffordd roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio ymhellach er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Canfuom nad oedd sgriniau cyfrifiaduron bob amser yn cael eu cloi pan nad oedd aelod o staff yn bresennol, ac nad oedd mynediad i'r ystafell staff fechan, lle roedd rhai cofnodion cleifion yn cael eu cadw, yn ddiogel. Roedd copi wrth gefn o’r holl ffeiliau electronig yn cael eu cadw'n rheolaidd ac roedd mynediad i sgriniau cyfrifiadurol yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis adolygu ei brosesau diogelu data i sicrhau bod mynediad i gofnodion cleifion yn ddiogel.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion i asesu ansawdd y gwaith o gadw cofnodion ac ar y cyfan roedd y rhain yn dda iawn. Fodd bynnag, gwnaethom nodi'r maes canlynol i'w wella:

Mae angen i’r gwaith o raddio ansawdd radiograffau fod yn fwy cyson i gydymffurfio â'r safonau cyfredol. Dylai deintyddion ystyried cwblhau archwiliad

[5]Mae'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth yn offeryn datblygu arfer ar gyfer y tîm deintyddol cyfan sy'n helpu timau deintyddol i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion.

arall o arferion radiograffig.Cafodd y canfyddiad hwn ei drafod gyda rheolwr y practis.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i ddeintyddion wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sydd wedi'u cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau cyfredol ar gyfer cadw cofnodion o ran naratif a fformat. Dylai'r deintyddion yn y practis gwblhau archwiliad radiograffig arall.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Mae gan United Dental, Castell-nedd dîm practis sefydledig gyda throsiant staff isel. Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda iawn a bod staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei wneud gan reolwr y practis, gyda chymorth gan dîm y brif swyddfa. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi ymroddi i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda iawn a bod staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gefnogi gan reolwr y practis gyda mewnbwn gan dîm staff y brif swyddfa. Yn gyffredinol, roedd y practis wedi'i drefnu'n dda, gyda chofnodion da. Roedd tystiolaeth o brosesau sicrhau ansawdd effeithiol ac roedd archwiliadau perthnasol yn cael eu cynnal, fel y dangosir gan archwiliadau cadw cofnodion a radiograffig Memorandwm Technolegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrifau AGIC yn cael eu harddangos ar gyfer pob deintydd fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogaeth unrhyw aelodau newydd o staff yn cael eu cynnal cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn bresennol ar gyfer y deintyddion fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Roedd rhai gwiriadau eraill gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn y broses o gael eu hadnewyddu.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Roedd y staff a wnaethom siarad â nhw wedi ymrwymo i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion. Gwelsom dystiolaeth o ddogfennaeth hyfforddiant ymsefydlu staff. Mae rheolwyr y practis yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael mynediad i bolisïau a gweithdrefnau, fel bod swyddogaethau a chyfrifoldebau yn eglur ac yn cael eu deall. Gwelsom fod yr holl staff wedi cael mynediad at amrywiaeth eang o hyfforddiant, gan fodloni gofynion datblygu proffesiynol parhaus. Gwelsom dystiolaeth o gyfathrebu da rhwng y tîm a chyfarfodydd tîm rheolaidd. Roedd polisi a fformat ar waith ar gyfer arfarnu staff yn flynyddol ac roedd arfarniadau staff yn cael eu cynnal. Gwelsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

Mae digon o staff ar gael, ac ni fu angen defnyddio staff asiantaeth. Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith a gwelsom fod y rhain yn drefnus iawn, yn drwyadl a gwelsom dystiolaeth eu bod yn adlewyrchu ymarfer gwirioneddol.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol mewn perthynas â diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy’n ein hysbysu am y camau brys y mae’n eu cymryd

- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru

- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach

- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## **Atodiad A** – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni welwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: United Dental, Practis Castell-nedd

## Dyddiad yr arolygiad:11 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw welliannau ar unwaith yn yr arolygiad hwn | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: United Dental, Practis Castell-nedd

### Dyddiad yr arolygiad:11 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Rhaid i'r practis adolygu ei brosesau ar gyfer ymdrin â chwynion a safoni ei fformat cadw cofnodion, fel bod yr holl fanylion yn cael eu casglu, o adeg yr atgyfeiriad i'r camau sy'n cael eu cymryd a'r gŵyn yn cael ei chau. Dylid cynnal cofnod o bryderon ar wahân i wella'r gwaith o gadw'r cofnodion o gwynion yn daclus. | Safon Iechyd a Gofal 6.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 15 (3) | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Rhaid i'r practis adolygu ei asesiadau risg amgylcheddol er mwyn ystyried a chymryd camau mewn perthynas â gwneud mynediad i badiau presgripsiwn, mynediad i'r ystafell | Safon Iechyd a Gofal 2.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth | | | |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| ddadheintio a mynediad i storfeydd meddyginiaethau yn fwy diogel, a storio eitemau yn yr ardal o dan y grisiau. | Breifat (Cymru) 2008 14 (1)(d) | | | |
| Roedd angen rhagor o fanylion a/neu ddiweddaru ar y cofnodion imiwneiddio ar gyfer un deintydd ac un therapydd. | Safon Iechyd a Gofal 2.4<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 14 (1)(b) | | | |
| Rhaid i'r practis adolygu ei brosesau diogelu data i sicrhau bod mynediad i gofnodion cleifion yn ddiogel. | Safonau Iechyd a Gofal 3.4, 3.5<br>Deddf Diogelu Data 1998 | | | |
| Rhaid i ddeintyddion wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gafodd eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau cyfredol ar gyfer cadw cofnodion o ran naratif a fformat. Dylai'r deintyddion yn y practis gwblhau archwiliad radiograffig arall. | Safonau Iechyd a Gofal 3.5<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 | | | |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 14 (1)(b) | | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dim | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**